Cylchlythyr Methodist
Medi 2023



Action for Children

Gweithredu dros Blant

# Gyda diolch

## Annwyl gyfeillion,

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol arall i lawer o bobl, gyda'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb. Felly, hoffem ddiolch i chi unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Rydyn ni'n gwybod mai'r plant a'r teuluoedd agored i niwed rydyn ni'n eu cefnogi yw'r rhai a fydd yn dioddef fwyaf yn ystod cyfnodau anodd. Rydych chi'n parhau i'n helpu ni i fod yn achubiaeth hollbwysig i deuluoedd sydd heb unman i droi.

Yn y cylchlythyr hwn, byddwch chi'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynhadledd y Methodistiaid 2023, a Sul Gweithredu dros Blant a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn ein gwaith drwy godi arian yn lleol, ein digwyddiad Gwrthod mynd i'r Gwely, a'n hymgyrch Sion Corn Cudd (cofiwch fod yn greadigol wrth ddylunio'r addurn amgaeedig er mwyn ei roi ar eich coeden).

Ceir hefyd fanylion ynghylch ble i brynu eich cardiau Nadolig Gweithredu dros Blant eleni.

Byddwn ni hefyd yn sôn am ein Sêr Methodistaidd, lle byddwn ni'n diolch i rai o'n cefnogwyr anhygoel o'r gymuned hon.

Wrth i ni edrych ymlaen at y Nadolig ac at 2024, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud i'n gwaith. Rydyn ni'n edrych ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio i greu plentyndod hapus a diogel.

Dymunwn Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd.

**Katie Cartwright**
Pennaeth Codi Arian Rhanbarthol

**Anna McCrum**
Arweinydd Partneriaeth Ffydd

## Gwell byth gyda'n gilydd!

Mae llawer ohonoch chi'n rhan o'n Grwpiau Gwirfoddolwyr i Godi Arian, sydd bellach yn cael ei alw'n Sgwadiau Gweithredu. Mae'r grwpiau cymunedol hyn yn cynnwys pobl anhygoel, ac maent yn dod â'u ffrindiau a'u teulu at ei gilyddi gynnal digwyddiadau er mwyn codi arian i helpu i newid bywydau plant a theuluoedd ledled y DU.

I gymryd rhan, gallwch chi wneud y canlynol:

- **Cynllunio a threfnu eich digwyddiadau codi arian eich hun, gyda chymorth gan Swyddogion Cymorth Rhanbarthol Gweithredu dros Blant.**
- **Cymryd rhan mewn digwyddiadau mawr Gweithredu dros Blant fel ein digwyddiad codi arian dros y Nadolig, Sion Corn Cudd.**
- **Gwirfoddoli mewn digwyddiadau cenedlaethol, fel Marathon Llundain a'r Great North Run.**
- **Rhoi cyflwyniadau ar ein gwaith yn y gymuned a chefnogi ein hymgyrchoedd.**



P'un a ydych chi'n trefnu un digwyddiad mawr y flwyddyn, neu llawer o ddigwyddiadau llai fel raffl, noson gwis a gwerthu cacennau, mae sawl ffordd o godi arian ar ein cyfer.

Rydyn ni'n siŵr bod gennych chi lawer o syniadau gwych, ac rydyn ni yma i'ch cefnogi chi, beth bynnag sydd ei angen arnoch chi. Edrychwch ar yr adran Sgwadiau Gweithredu ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth, ac mae croeso i chi gysylltu â ni er mwyn trafod y cyfan yn fanylach.

## Boycott your Bed Live



Ers 25 mlynedd a mwy, mae cefnogwyr fel chi wedi ein helpu i godi swm anhygoel o £13.5 miliwn. Mae'r cefnogwyr wedi troi eu cefn ar eu gwely am un noson i gysgu allan a dangos eu cefnogaeth i'r plant sydd heb le diogel i gysgu.

Bydd ein digwyddiad Gwrthod mynd i'r Gwely eleni yn cael ei gynnal nos **Wener 6 Hydref 2023**. Byddem wrth ein bodd petaech chi'n dod at eich gilydd gyda'ch cymuned i gynnal eich digwyddiad eich hun, ac ymgymryd â'r her o gysgu allan a chodi arian ar gyfer plant agored i niwed.

Mae'n bryd dod at ein gilydd, codi arian hollbwysig a wynebu'r her o gysgu allan. Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth, neu siaradwch â'ch person cyswllt yn Gweithredu dros Blant i gael rhywfaint o wybodaeth ac ysbrydoliaeth: **boycottyourbed.co.uk**

## Balchder, Gwerthfawrogiad a Pharch

Wrth adeiladu ar ein cyd-dreftadaeth, bu Cynhadledd y Methodistiaid 2023 yn taflu goleuni ar bŵer ein pwrpas cyffredin, ac yn trafod pa drywydd y dylem ei ddilyn ar gyfer y dyfodol.

Mae ein cefnogwyr Methodistaidd gwych yn parhau i roi cymorth enfawr i Gweithredu dros Blant mewn sawl ffordd, gan gynnwys codi arian, cefnogi ac ehangu ein hymgyrchoedd polisi, gwirfoddoli a hwyluso ein gwasanaethau drwy ddefnyddio safleoedd eglwysig.

Dywedodd Anna McCrum, Arweinydd Partneriaethau Ffydd Gweithredu dros Blant:

> ***"Yn y Gynhadledd Fethodistaidd, dangoswyd balchder, gwerthfawrogiad a pharch tuag at y gwaith y mae Gweithrdu dros Blant yn ei wneud ar draws gwledydd y DU."***

Rydyn ni'n ymrwymo i barhau â'r gwaith hwnnw, a diolch yn fawr am eich cefnogaeth ac ymddiriedaeth barhaus ynom ni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld mwy ohonoch chi'n codi arian gyda'ch gilydd yn 2024.

# Nodyn i'ch atgoffa o'n ***cenhadaeth***

Mae dros 150 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i'r Parchedig Ddr Thomas Bowman Stephenson, y sylfaenydd, gamu i'r adwy ar ôl gweld plant yn cysgu allan o dan fwâu Gorsaf Waterloo. Heddiw, mae llawer o blant yn dal i lwgu. Maen nhw'n dal yn teimlo'n oer. Bodoli maen nhw, nid rhagori. Rydyn ni'n benderfynol o fod yn achubiaeth hollbwysig i deuluoedd sy'n byw mewn realiti na ddylai fod yn digwydd yn y byd sydd ohoni. Dyma sut rydyn ni'n helpu:

**Cymorth i deuluoedd**
Cefnogi teuluoedd i wneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

**Plant mewn gofal**
Gofalu am blant a phobl ifanc i roi cartref diogel, sefydlog a chariadus iddyn nhw.

**Plant anabl**
Cefnogi plant anabl, pobl ifanc anabl a'u teuluoedd.

**Lechyd meddwl a llesiant**
Meithrin cadernid emosiynol plant a phobl ifanc i'w helpu i oresgyn heriau.

**Ac rydyn ni'n dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc.**

Rydyn ni'n darparu **426 o wasanaethau mewn cymunedau lleol ledled y DU,** mewn ysgolion ac ar-lein. Er mwyn i fwy o blant gael plentyndod hapus a diogel.

Yn 2022/23 fe wnaethon ni helpu **765,905 o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU.**

## Rhoddion mewn ewyllysiau

Y llynedd, daeth **24%** o'n hincwm codi arian drwy roddion mewn ewyllysiau. Diddordeb mewn sicrhau dyfodol gwell?

Cysylltwch am ragor o wybodaeth drwy **giftsinwills@actionforchildren.org.uk**

# Ein sêr Methodistaidd

**Rydyn ni wrth ein bodd yn rhannu enghreifftiau o rai o'ch llwyddiannau gwych o ran codi arian:**



Cynhaliwyd cyngerdd haf gan **Eglwys Fethodistaidd Wesley yn Reading** ddydd Gwener, 14 Gorffennaf, a hynny er budd Gweithredu dros Blant. Bu **Côr Cymunedol Take Note** yn perfformio amrywiaeth o ganeuon pop, soul, ensemble roc ac unawdol yn ogystal â chaneuon adnabyddus o'r sioeau cerdd. Cynhaliwyd y cyngerdd fel rhan o ddathliadau Eglwys Fethodistaidd Wesley yn 150 mlwydd oed, a chafodd swm anhygoel o £1,059 ei godi ar gyfer Gweithredu dros Blant. Llongyfarchiadau i bawb am gyngerdd llwyddiannus ac am gyrraedd y garreg filltir hon. Bydd eich haelioni a'ch ymrwymiad yn helpu i wneud gwahaniaeth enfawr i'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi.

Mae **Eglwys Fethodistaidd Surbiton Hill** wedi cefnogi Gweithredu dros Blant ers blynyddoedd. Ers i gronfeydd data gael eu cyflwyno, rydyn ni wedi cofnodi eu bod nhw wedi codi £60,000 drwy Flychau Casglu Gartref, felly rydyn ni'n gwybod y bydd y swm hwnnw'n fwy byth. Rydyn ni mor ddiolchgar i bawb yn yr eglwys ac i'ch cymuned am roi mor hael.



Cynhaliwyd digwyddiad trefnu blodau yng Nghylchdaith **Fethodistaidd Vale of Stour** ym mis Mai, a chodi £372. Trefniannau gwych, diolch yn fawr i bawb.

Cafodd Digwyddiad Ffair Fefus ei gynnal gan **Elaine Hendry**, sy'n aelod o **Grŵp Methodistaidd St Andrews** yn Mavagissey, Cernyw, yn eu heglwys i ddathlu 30 mlynedd ers cefnogi Gweithredu dros Blant. Fe wnaeth Elaine gacen wedi'i brandio i ddathlu'r achlysur arbennig!

Fe wnaeth **Eglwys Fethodistaidd Paisley groesawu'r Rock Choir** ar 17 Mehefin, a chodi £800 a mwy – swm enfawr i helpu i ariannu ein gwaith.

# Be a Secret Santa for a vulnerable child



Mae bwrlwm y Nadolig yn dechrau yn ystod plentyndod. Addurno. Rhannu bwydydd Nadoligaidd. Anrhegion o dan y goeden. Dyna'r amser i blant greu atgofion gwerthfawr. Er mwyn iddyn nhw gael teimlo hapusrwydd a chariad – profiadau sy'n para am oes.

I blant agored i niwed, dydy'r Nadolig ddim yn hudolus o bell ffordd. Dim addurniadau. Dim anrhegion. Dim bwydydd Nadoligaidd – efallai dim bwyd o gwbl.

Ond gallech chi helpu i newid hynny.

## Byddwch yn Siôn Corn Cudd, a gallech chi helpu plentyn agored i niwed i deimlo bwrlwm y Nadolig.

**iamsanta.org.uk**

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

## Sul Gweithredu dros Blant



Ddydd Sul 9 Gorffennaf, sef y diwrnod rydyn ni'n dathlu agoriad ein cartref plant cyntaf, daeth llawer ohonoch at eich gilydd mewn gwasanaethau eglwysi ar hyd a lled y wlad i ddathlu ein gwaith, eich haelioni ac, mewn sawl achos, eich cefnogaeth barhaus a hirsefydlog. Y thema eleni oedd 'tyfu a ffynnu gyda'n gilydd'.

Aeth ein tîm Codi Arian Rhanbarthol allan i ymweld â chi i gyd a'ch gwasanaethau mor aml ag y gallen nhw. Bu'n wych cysylltu â chi a chael sgwrs am sut mae sicrhau bod Gweithredu dros Blant yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar draws cymunedau.

Diolch i chi i gyd am fod yn eiriolwyr mor werthfawr dros ein nodau a'n huchelgais.

## Cardiau Nadolig ar gyfer eich anwyliaid

Rydyn ni'n gwybod bod llawer ohonoch chi'n cefnogi ein gwaith drwy brynu cardiau Nadolig Gweithredu dros Blant ar gyfer eich anwyliaid sy'n byw yn agos ac ymhell.

I brynu eich cardiau eleni, ewch i **charitycardsonline.com/actionforchildren** neu siaradwch ag aelod o'n Tîm Gwasanaethau Cefnogwyr ar **01934 522920**.




Action for Children-Gweithredu dros Blant, sydd wedi'i gofrestru yn 3 The Boulevard, Ascot Road, Watford WD18 8AG a'i gofrestru fel cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr o dan rif 4764232. Rhifau cofrestru'r elusen 1097940/SC038092. © Gweithredu dros Blant 2023. ACT-0019-003.